Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru Pentip
Pembrey Road
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3BL

27/11/2024

Annwyl Nicholas Davies

**Ymweliad interim:** Tachwedd 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru Pentip yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'r arolygiad craidd a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019 ac adroddiad monitro dilynol yng Ngwanwyn 2022. Ceir crynodeb isod o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny. Dylai arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i gefnogi mwy o welliannau yn y meysydd hyn.

At ei gilydd, mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau a meysydd i'w gwella presennol yr ysgol, ac mae ganddynt gynlluniau addas ar waith i barhau i symud yr ysgol ymlaen.

**Ffocws yr ymweliad**

**Codi safonau disgyblion mewn ysgrifennu**

- Mae arweinwyr yr ysgol wedi gwerthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn gywir wrth ddatblygu ysgrifennu ar draws yr ysgol. Mae ganddynt gynlluniau addas ar waith i ddatblygu ysgrifennu ymhellach a meithrin gallu yn yr ysgol i fonitro'r cynnydd ym medrau disgyblion.
- Mae'r ysgol wedi sefydlu rhaglen ffoneg effeithiol i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am lythrennau a seiniau yn llwyddiannus. Maent yn darparu cymorth ychwanegol addas â ffoneg ar gyfer disgyblion, pan fydd angen. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn defnyddio'u gwybodaeth am seiniau llythrennau i seinio geiriau syml ar goedd, a'u sillafu â hyder.
- Mae uwch arweinwyr wedi cyflwyno offeryn cynllunio i gynorthwyo athrawon â'u cynlluniau llythrennedd. Fodd bynnag, nid oes gan staff ddealltwriaeth

ddigon da o ddilyniant mewn ysgrifennu. O ganlyniad, mae cyflymdra'r cynnydd mewn ysgrifennu yn anghyson ar draws yr ysgol.

- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion hŷn ysgrifennu mewn amrywiaeth o genres ac yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn ysgrifennu eu syniadau â hyder cynyddol yn yr ardaloedd chwarae rôl ac yn ysgrifennu brawddegau syml wrth gwblhau tasgau ysgrifennu cynlluniedig. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn cynnal eu syniadau wrth ysgrifennu'n estynedig, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir.
- Mae staff yn ystyried datblygu geirfa disgyblion yn ofalus. Maent yn creu amgylcheddau dysgu sy'n gyfoethog o ran geirfa ac yn darparu geirfa benodol i gynorthwyo disgyblion â'u hysgrifennu, mewn llythrennedd, ac wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd disgyblion o eirfa yn eu hysgrifennu. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod ehangach o eirfa fwy mentrus yn gywir.
- Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau priodol ar gyfer disgyblion, ac yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas â'u medrau ysgrifennu.
- Mae llawer o staff yn rhoi adborth addas ar lafar i ddisgyblion ac yn defnyddio holi effeithiol yn ystod gwersi i ddatblygu meddwl disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig yn canolbwyntio'n ddigon craff ar yr hyn y mae disgyblion yn ei gyflawni a'r camau nesaf mewn ysgrifennu. Felly, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn gwneud y cynnydd y gallant â'u medrau ysgrifennu yn ystod gwersi unigol a thros gyfnod.

**Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol a gwydn**

- Ers yr arolygiad craidd ac ymweliadau monitro dilynol, mae arweinwyr wedi sefydlu strategaethau allweddol i athrawon eu defnyddio yn eu haddysgu i ddatblygu medrau dysgu'n annibynnol disgyblion.
- Mae gan yr ysgol gynlluniau addas ar waith i roi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau annibynnol mewn ystod o gyd-destunau. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r rhain.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn defnyddio adnoddau o fewn yr amgylchedd dysgu yn annibynnol i ymestyn eu chwarae a'u dysgu yn effeithiol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydweithio â'i gilydd, yn rhannu syniadau ac yn cymryd eu tro i gwblhau tasgau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth greu cwrs rhwystrau yn yr ardal awyr agored.
- Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu â gwersi a dysgu am gyfnodau amser hirach.
- Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad am y modd y mae canllawiau a sbardunau buddiol y mae athrawon yn eu rhoi iddynt yn eu helpu yn eu gwaith ac i ddatrys problemau yn annibynnol.
- Mae defnydd yr ysgol o'i system wobrwyo yn cydnabod medrau annibynnol a gwydnwch disgyblion wrth ddysgu, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion.
- Mae arweinwyr yr ysgol yn cynnal gweithgareddau gwerthfawr fel arolwg disgyblion sy'n eu helpu i gasglu gwybodaeth i roi gwybod iddynt am

agweddau disgyblion at ddysgu a sut maent yn ystyried eu hunain yn ddysgwyr galluog.

Gellir gweld adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol / UCD a mwy o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/pentip-v-a-c-i-w-primary-school-cy/

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol